# SL(6)026 - Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2021

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth ym maes rheolaethau bioddiogelwch ar gyfer mewnforio anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid, fel rhan o ddull ar draws Prydain gyfan.

Effaith y Rheoliadau hyn fydd gohirio pellach wrth gyflwyno archwiliadau dogfennol a ffisegol mewn safleoedd rheoli ffiniau yng Nghymru, mewn cysylltiad â chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fewnforiwyd. Bydd gwiriadau o'r fath yn cael eu cyflwyno'n raddol rhwng 1 Hydref 2021 a 1 Mawrth 2022.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y bydd y Rheoliadau hyn yn arwain at ohirio pellach wrth gyflwyno archwiliadau dogfennol a ffisegol mewn safleoedd rheoli ffiniau yng Nghymru, mewn cysylltiad â chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fewnforiwyd, fel rhan o ddull ar gyfer Prydain gyfan. Bydd gwiriadau o'r fath yn cael eu cyflwyno'n raddol rhwng 1 Hydref 2021 a 1 Mawrth 2022.

O ran y gohirio, nodwn yr hyn a ddywed Llywodraeth Cymru yn y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau:

*"Yn dilyn adolygiad gan swyddogion o'r cynllun gweithredu ar gyfer rheolaethau mewnforio gan gynnwys gwiriadau Iechydol a Ffotoiechydol ar anifeiliaid byw a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, mae penderfyniad wedi'i wneud i ohirio cyflwyno gwiriadau dogfennol a gwiriadau ffisegol mewn Safleoedd Rheoli dynodedig ar y Ffin. Mae hyn oherwydd bod busnesau ac awdurdodau cymwys, ers diwedd y cyfnod pontio, wedi gorfod addasu a bodloni gofynion sylweddol newydd yr UE a'r DU wrth symud nwyddau o dan y berthynas fasnachu newydd â'r UE.*

*Bydd yr amserlen ddiwygiedig hon yn rhoi mwy o amser i fusnesau ac awdurdodau cymwys baratoi wrth iddynt addasu i'r berthynas fasnachu newydd ac adfer yn sgil effeithiau hirach a dyfnach pandemig COVID-19."*

Hefyd, dywed y Memorandwm Esboniadol y byddai'n well gan randdeiliaid y diwydiant i'r gwiriadau dogfennol a'r gwiriadau ffisegol ar gyfer Prydain gael eu cyflwyno'n gynharach yn hytrach nag yn hwyrach, gan fod mewnforion o Brydain wedi wynebu gwiriadau mewnforio o'r fath gan yr UE ers mis Ionawr 2021. Nodwn fod yr ymgynghoriad ar gyfer Prydain gyfan ar y Rheoliadau hyn wedi amlygu'r angen i lywodraethau roi eglurder ar drefniadau ffiniau yn y dyfodol ar fewnforion ac ar allforion, ond roeddent yn dangos bod consensws eang bod yr oedi hwn yn angenrheidiol.

Roedd y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol yn ddefnyddiol ac yn addysgiadol i ni:

*"Fe wnaeth Defra, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban anfon ymgynghoriad preifat allan ym mis Mehefin 2021, yn gofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid ar ohirio gweithredu'r weithdrefn mewnforio fesul cam. Gofynnodd yr ymgynghoriad a oedd rhanddeiliaid yn cytuno â'r oedi, neu a oeddent yn teimlo y dylai'r amserlen wreiddiol a drefnwyd, yn cyflwyno rheolaethau Gwiriadau Iechydol a Photoiechydol llawn, gael effaith fel y bwriadwyd iddynt ei chael o 31 Gorffennaf.*

*Mae'r newidiadau a wneir yn ddiwygiadau sy'n ymwneud â gweithredu i gyfraith bresennol yr UE a ddargedwir er mwyn sicrhau bod y gyfraith yn adlewyrchu newidiadau a wnaed yn ystod y cyfnod pontio a'i bod yn weithredol yng nghyd-destun y DU. Yn sgil trafodaethau parhaus, rydym yn ymwybodol y byddai'n well gan randdeiliaid y diwydiant i'r rheolaethau ar gyfer Prydain ar fewnforion o'r UE gael eu cyflwyno'n gynharach yn hytrach nag yn hwyrach, gan eu bod yn teimlo yn gyffredinol ei bod yn annheg bod mewnforion o Brydain wedi wynebu rheolaethau o'r fath gan yr UE ers mis Ionawr 2021. Roedd yr ymatebion ehangach gan randdeiliaid yn amlygu'r angen i'r llywodraeth roi eglurder ar drefniadau ffiniau yn y dyfodol ar fewnforion ac ar allforion, ond roeddent yn dangos bod consensws eang a chyffredinol bod y newidiadau a ddarperir â'r O.S. hwn i amserlen y rheolaethau yn angenrheidiol er mwyn paratoi'r sector yn effeithiol, a byddai methiant i weithredu'r newidiadau hyn erbyn diwedd mis Gorffennaf fel y darperir gan yr Offeryn hwn yn creu gofynion "amhosibl" i fewnforwyr eu bodloni ac i'r awdurdodau cymwys eu darparu."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.